# Polisi Ffioedd Dysgu

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo :** 2017

**Perchennog y polisi:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

**Cyswllt ar gyfer y polisi:** Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol

**Statws y polisi:** Fersiwn ddiwygiedig: 1.0

**Yr adolygiad diwethaf:** 2020

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** 2021

# Polisi Ffioedd Dysgu Prifysgol Aberystwyth

## Diben y polisi

- Gosodir ffioedd dysgu ar lefel sy'n denu myfyrwyr i Aberystwyth ac yn caniatáu i Brifysgol Aberystwyth weithredu'n gynaliadwy.

## Gosod Ffioedd Dysgu

### Prif ffioedd Prifysgol

- **Israddedigion Cartref / UE** – Caiff y ffioedd hyn eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan. Bydd y Brifysgol yn diwygio'r holl Ffioedd Dysgu israddedig Cartref / UE yn unol ag unrhyw newidiadau a gynghorir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan. Bydd unrhyw newid i'r ffioedd rheoledig hyn yn gymwys i fyfyrwyr sydd eisoes yn astudio yma yn ogystal ag i fyfyrwyr newydd.
- **Uwchraddedigion Cartref / UE ar gyrsiau a ddysgir** – Caiff y ffioedd hyn eu gosod trwy gyfeirio at farchnad Addysg Uwch y Deyrnas Gyfunol a'u hadolygu'n flynyddol.
- **Uwchraddedigion Cartref / UE ar gyrsiau ymchwil –** Caiff y ffioedd hyn eu gosod ar y lefel genedlaethol a gyhoeddir gan y Cynghorau Ymchwil.
- **Ffioedd Dysgu Rhyngwladol** - Caiff y ffioedd cyffredinol am y ddarpariaeth ryngwladol eu gosod trwy gyfeirio at Ffioedd Rhyngwladol a godir yn y farchnad Addysg Uwch yn y Deyrnas Gyfunol ac unrhyw amodau macro-economaidd, a'u hadolygu'n flynyddol.
- **Ffioedd rheoledig, gan gynnwys blwyddyn dramor a blwyddyn mewn diwydiant -** Gosodir eu gwerthoedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

### Ffioedd eraill

Mae ffioedd eraill Prifysgol yn cynnwys ffioedd modiwlar seiliedig ar gredydau, ffioedd ailsefyll arholiadau, a ffioedd dysgu o bell. Caiff y ffioedd hyn eu gosod trwy gyfeirio at gostau'r ddarpariaeth a'r ffioedd a godir gan ddarparwyr eraill Addysg Uwch yn y Deyrnas Gyfunol.

### Cynnydd cysylltiedig â Chwyddiant

Cynyddir y ffioedd dysgu a delir gan fyfyrwyr unigol bob blwyddyn, yn unol â graddfa chwyddiant (nid y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o angenrheidrwydd) cyhyd â bod y rheoliadau'n caniatáu hynny. Caniateir hyn ar hyn o bryd yn achos myfyrwyr rhyngwladol ac uwchraddedigion, ond nid yn achos israddedigion cartref/UE.

Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan yn caniatáu i ffioedd dysgu Israddedigion Cartref / UE i godi o ychydig yn y blynyddoedd i ddod er mwyn rhoi cyfrif i bwysau cysylltiedig â chwyddiant.

### Matrics awdurdodi

| | Argymhellwyd gan: | Awdurdodwyd gan: |
|---|---|---|
| Polisi Ffioedd Dysgu | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth | Y Cyngor |
| Prif Ffioedd | Gweithrediaeth y Brifysgol | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth |
| Ffioedd eraill | Pwyllgor Ffioedd ac Ysgoloriaethau | Gweithrediaeth y Brifysgol |